MAWRTH AC EBRILL
2025

YSGOL DYFFRYN DULAS

# LLEISIAU DYFFRYN DULAS

## DYDD GWYL DDEWI



Bore dydd Llun, 3ydd o Fawrth, cynhaliwyd Gwasanaeth Dydd Gwyl Ddewi ar gyfer disgyblion a staff yr ysgol.
Cafodd disgyblion oedd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd gyfle i berfformio o flaen cynulleidfa tra'n bwyta bara brith a chacen gri gyda phaned o de.
Dysgwyd a chanwyd ambell i gan Dydd Gwyl Dewi yn ystod ein Gwasanaeth.















## DIOLCH YN FAWR

Diolch yn fawr i Sara Lewis, cyn riant Ysgol Dyffryn Dulas am wnio bathodynau 'Ledi Cymreig' ar gyfer codi arian i'r ysgol. Codwyd £188 at Gronfa Ysgol Dyffryn Dulas. Rydym yn ddiolchgar iawn iddi am fod mor garedig.

# GORYMDAITH GWYL DDEWI



Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 Orymdaith Gŵyl Dewi llwyddiannus yn Nywyn ! Er gwaetha'r tywydd roedd yr awyrgylch, y cyffro a'r bwrlwm yn arbennig o gynnes, a'r plant i weld yn mwynhau eu hunain yn fawr iawn. Diolch i aelodau Cwmni'r Fran Wen am gynnal y gweithdai i ysbrydoli'r dysgwyr cynradd ar y thema 'Tirwedd'.

Byddwn yn dal ati i drosglwyddo'r iaith a holl gyfoeth ein diwylliant a'n treftadaeth oherwydd mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb yma yng Ngwynedd!!
















DIWRNOD Y LLYFR WORLD BOOK DAY

# DIWRNOD Y LLYFR

Ar Ddiwrnod y llyfr eleni, roedd y disgyblion wedi gwisgo fel cymeriad o lyfr, gwisg ffansi neu mewn dillad cyfforddus. Yn ystod y dydd roedd athrawon wedi trefnu gweithgareddau darllen.












# EISTEDDFOD YR URDD CYLCH IDRIS

**Unawd Bl 2 ac iau**
1af Silyn Breese

**Unawd Bl 3 a 4**
2il Curig Breese
3ydd Melys Morus-Baird

**Unawd Blwyddyn 5 a 6**
1af Zahra El Mliji

**Unawd Alaw Werin Bl 6 ac iau**
1af Zahra El Mliji,
2il Curig Breese,
3ydd Bleddyn Frohawk

**Llefaru Bl 2 ac iau**
1af Gruff Jones
2il Silyn Breese
3ydd Amy Turner

**Llefaru Bl 3 a 4**
1af Curig Breese
2il Angharad Evans
3ydd Bleddyn Frohawk

**Llefaru Bl 5 a 6**
1af Zahra El Mliji


**Unawd Gitar Bl6 ac iau**
1af Anya Crockford

**Deuawd Bl6 ac iau**
2il Grace Hussein a Zahra El Mliji

**Parti Canu**
3ydd - Parti Pennal

**Llongyfarchiadau mawr i disgyblon y Ffederasiwn fu'n cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Nhywyn yn mis Mawrth. Hefyd i Anya ar ddod yn gyntaf ar yr Unawd Gitar yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd.**
















**MAWRTH AC EBRILL 2025**

# LLEISIAU DYFFRYN DULAS



## GWEITHDY CYFANSODDI




Yn ddiweddar mae disgyblion hynaf yr ysgol wedi cael profiadau cerddorol gwerthfawr wedi ei drefnu gan Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd.
Daeth Osian Williams, neu Osian o’r grwp Candelas draw i'r ysgol i gynnal tri gweithgaredd Cerddoriaeth gyda disgyblion hyn yr ysgol. Roedd y disgyblion wrth eu bodd yn cael treulio amser a chyfansoddi gyda un o sêr mwyaf y byd pop Cymraeg. Yn y sesiwn olaf fe gyfansoddwyd can arbennig ar y cyd am thema’r dosbarth y tymor hwn sef ‘Gwreiddiau’ a dyma’r geiriau:

Gwreiddiau
Cytgan
Mae’r byd ‘ma yn llawn o wreiddiau
Mae angen eu gwarchod a’u cadw yn gryf
Er mwyn achub ein dyfodol
Ma’r coed angen heulwen a glaw
I’r gwreiddiau angori i’r tir
Creu tatws a moron, a ffrwyrthau di-ri
I’n cadw ni’n hapus a chryf
Mae’n gwreiddiau ni yma yng Nghorris
A’n lledu o amgylch y byd
Cartrefi yng nghanol y llechi
i’r ysgol sy’n gwreiddio ni gyd.
Ma’r ddraig goch yn uno pob Cymro
A’n ffrindiau yn clymu yn dynn
Afonydd, mynyddoedd a hanes
Un cwlwm o wreiddiau Cymreig.
Bydd y plant yn perfformio’r gan hon
yn nathliad penblwydd yn ysgol yn 70
ym Mis Mehefin.

## SESIWN CODI'R TO



Aeth disgyblion Blwyddyn 5 i Ysgol Uwchradd Tywyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd cerddoriaeth band ‘Codi’r Tô’ wedi ei drefnu gan Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru yn Ysgol Uwchradd Tywyn.

# LLEISIAU DYFFRYN DULAS


## SESIYNAU SEICLO BLWYDDYN 5 A 6



Daeth Nici o ddiogelwch y ffordd Gwynedd at ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 am ddau ddiwrnod i gynnal gwersi beicio a sut i sicrhau sut mae beicio'n ddiogel ar hyd y ffordd. Roedd y sesiwn gyntaf ar iard yr ysgol, ac yna ar yr ail ddiwrnod roedd y disgyblion yn cael beicio ar y ffordd fawr gan ddysgu sut i arwyddo i droi i'r chwith ac i'r dde a hefyd magu hyder yn beicio ar ffyrdd ble mae llawer o draffig ar y ffordd. Llwyddodd yr holl blant i basio'r prawf beicio a derbyn tystysgrif, da iawn chi. Diolch hefyd i Nici am ddysgu sgiliau holl bwysig i'r plant.

## GWEITHDY GYDA MEI MAC

Daeth Mei Mac i'r ysgol bore dydd Gwener, 4ydd o Ebrill i gynnal gweithdy dylunio cartwns gyda'r disgyblion hyn. Roedd hyn yn rhan o brosiect Siartr yr Iaith y dalgylch.






## GARDDIO

Rydym wedi cychwyn garddio o amgylch yr ysgol. Os oes gennych ddiddordeb ein helpu ambell brynhawn, buasai pawb yn ddiolchgar iawn o'ch cymorth.

Rydym wedi archebu rhagor o offer garddio gan ddefnyddio arian grant diweddar.

# PONTIO UWCHRADD

Yn ddiweddar mae Mrs Rhian Puw (Athrawes Ysgol Uwchradd Tywyn) wedi bod yn dod i'r Ysgol ar brynhawniau Iau i ddysgu sut i chwarae ukelele i'r Dosbarth. Diolch yn fawr i Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Mon am yr ukeleles er mwyn i'r Dosbarth cyfan gael tro arni.

Ar brynhawniau Gwener, mae Mr Ethan Rogers (Athro Mathemateg Ysgol Uwchradd Tywyn) wedi bod yn dod i gynnal sesiynau Mathemateg gyda disgyblion Blwyddyn 6 Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal yn yr ysgol. Mae hyn yn gymorth mawr i'r disgyblion ar gyfer y trosglwyddo.



# PC SION

Daeth PC Siôn i'r ysgol prynhawn 27ain o Fawrth I drafod diogel ar y we, seibr ddiogelwch, a dangos sut i greu'r cyfrineiriau fwyaf diogel phosib a pha lwyfannau sy'n ddiogel i ni eu defnyddio fel plant. Cafodd disgyblion dosbarth 3-7 oed gyflwyniad am sut i gadw ei hunain yn ddiogel, gwasanaethau brys a pha rifau i'w ffonio. Cafodd bawb gyfle i stampio olion bysedd i fynd adref efo ni.

# CYMRU'N ROCIO

Mae pob disgybl Blwyddyn 2 - Blwyddyn 6 y Ffederasiwn wedi cael enw defnyddiwr a chyfrinair ar gyfer ymarfer lluosi a rhannu ar TT Rock stars. Cymerodd disgyblion Blwyddyn 3-6 rhan yn y gystadleuaeth Cymru'n Rocio ar TTRS yn ystod 1af - 3ydd o Ebrill. Roedd 420 o ysgolion wedi cystadlu eleni. Roedd y Ffederasiwn yn safle 97 allan o 420 ysgol. Da iawn bawb am wneud ei gorau gyda'r tablau yn ystod y 3 diwrnod!



**MAWRTH AC EBRILL 2025**

# LLEISIAU DYFFRYN DULAS

## E STEDDFOD

Bu nifer o ddisgyblion Ysgol Dyffryn Dulas yn cystadlu yn yr E-Steddfod ar lein eto eleni. Daeth Ysgol Dyffryn Dulas yn drydydd yn yr E-Steddfod. Cafodd y rhieni fwynhau gwylio'r E-Steddfod o adref a roedd enwogion y byd teledu yn cyflwyno ac yn beirniadu. Mi wnaeth y disgyblion fwynhau cymryd rhan a cafodd disgyblion yr ysgol gyfan fwynhau gwylio'r cystadlaethau yn ystod y dydd. Enillodd Grace (Blwyddyn 5) y goron yn ystod y Seremoni coroni am ei gwaith ysgrifennu Saesneg. Dyma'r canlyniadau ar gyfer cystadlaethau llwyfan a'r adran Gwaith Cartref.

**Llefaru unigol**
Pegi 1af (Meithrin a Derbyn)
Gruff 2il (Blwyddyn 1 a 2)
Anya 3ydd (Blwyddyn 3 a 4)
Zahra 3ydd (Blwyddyn 5 a 6)







**Canu unigol**
Pegi 1af (Meithrin a Derbyn)
Gruff 2il (Blwyddyn 1 a 2)
Zahra 3ydd (Blwyddyn 5 a 6)

Côr Meithrin i Blwyddyn - 2il
Côr Blwyddyn 3-6 - 3ydd

**Celf**
Margo 3ydd (Meithrin a Derbyn)
Elsie 2il (Blwyddyn 1 a 2)
Anya 2il (Blwyddyn 3 a 4)
Grace 1af (Blwyddyn 5 a 6)

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**
Margo 1af (Meithrin a Derbyn)
Efa 1af (Blwyddyn 1 a 2)
Rhodri 2il (Blwyddyn 3 a 4)
Otis 3ydd (Blwyddyn 5 a 6)








**MAWRTH AC EBRILL 2025**

# LLEISIAU DYFFRYN DULAS

## E STEDDFOD




**Datrys Problemau Mathemateg**
Margo 3ydd (Meithrin a Derbyn)
Barney 1af (Blwyddyn 1 a 2)
Anya 3ydd (Blwyddyn 3 a 4)
Dylan 3ydd (Blwyddyn 5 a 6)

**TGCh/Graffeg Cyfrifiadurol**
Gruff 2il Blwyddyn 1 a 2
Lucy 1af Blwyddyn 3 a 4
Dylan 2il Blwyddyn 5 a 6

**Gwaith Ysgrifenedig Cymraeg**
Charlie 3ydd (Meithrin a Derbyn)
Chloe 3ydd (Blwyddyn 1 a 2)
Anya 3ydd (Blwyddyn 3 a 4)
Zahra 2il (Blwyddyn 5 a 6)




**Gwaith Ysgrifenedig Saesneg**
Lucy 3ydd (Blwyddyn 3 a 4)
Grace 1af (Blwyddyn 5 a 6)

**Ennillydd coron yr Eisteddfod - Grace**

**Enillwyr yr E-steddfod**
1af Ysgol Llanilar (149 pwynt)
2il Ysgol Rhoshelyg (143 pwynt)
3ydd Ysgol Dyffryn Dulas (133 pwynt)
4ydd Ysgol Pontybrenin (36 pwynt)



